

System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ([WNWRS](#))

Oriau gwaith Partneriaid Practisiau

Meddygon Teulu

Mae gennym ychydig o bractisiau o hyd sydd heb gofnodi oriau gwaith ar gyfer eu Practisiau Meddygon Teulu. Sicrhewch eich bod yn dewis y math o gontract 'contract oriau sero' NID 'partner (oriau sero)' ac yn nodi faint o oriau wythnosol ar gyfartaledd y maent yn gweithio yn y blwch Oriau Gwaith.

Mae hyn yn arbennig o bwysig gan ei fod yn bwydo'r swm cyfwerth ag amser llawn yn y modiwl adrodd a gallai methu â chofnodi oriau gwaith arwain at wallau yn ffigurau adrodd eich Practis ar WNWRS, sy'n helpu i gefnogi'ch practis yn ystod trafodaethau cynllunio'r gweithlu.



Ffocws ar: Meddygon Teulu Locwm ar WNWRS

Yn dilyn adborth gan Reolwyr Practis, bydd diweddariad yn fuan i'r swyddogaeth yn WNWRS, gan ddileu'r opsiwn i Reolwyr Practis nodi manylion yn yr ardal Meddygon Locwm Anfynych*. Rydyn ni nawr yn cymryd yr holl wybodaeth Meddygon Teulu Locwm Anfynych o Locum Hub Wales, gan ddileu'r angen i Reolwyr Practis nodi'r wybodaeth hon yn WNWRS.

CAMAU I'W CYMRYD: Bydd Rheolwyr Practis yn cysoni'r holl Sifftiau Locwm mewn pryd i sicrhau eu bod yn cael eu nodi gan Feddyg Teulu Locwm ar Locum Hub Wales (GPWales). Ni fydd angen mewnbynnu unrhyw ddata Meddygon Teulu Locwm Anfynych ar WNWRS, oni bai eich bod yn Bractis a Reolir gan Fwrdd Iechyd.

*Bractisiau a Reolir gan Fyrdau Iechyd, parhewch i gofnodi'r holl weithgarwch Locwm ar gyfer eich Practis trwy WNWRS, naill ai trwy nodi cofnod staff dilys llawn yn eich Tabl Staff, neu drwy nodi'r manylion Locwm yn yr ardal Meddygon Teulu Locwm Anfynych. Bydd mynediad i'r Ardal Meddygon Teulu Locwm Anfynych yn WNWRS ar gael o hyd ar gyfer Practisiau a Reolir gan Fyrdau Iechyd yn unig.

Swyddi gwag - Cyfle i arddangos

Byddwn yn mynd i gynhadledd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol sydd ar ddod, gan hyrwyddo'r hyn y mae'n ei olygu i [Hyfforddi.Gweithio.Byw](#) mewn Gofal Sylfaenol yng Nghymru.

Mae hwn yn gyfle delfrydol i hysbysebu unrhyw swyddi gwag cyffredol ar GPWales a bydd yn golygu y gallwn hefyd gyfeirio cynrychiolwyr, felly peidiwch â cholli'r cyfle recriwtio gwyh hwn.

Mae GPWales yn blatfform hysbysebu am ddim sy'n cysylltu'n uniongyrchol â NHS Jobs, gan sicrhau bod eich swydd wag yn cael y sylw mwyaf posibl ar gyfer y gronfa fwyaf o geiswyr gwaith sy'n dymuno gweithio yng Nghymru.

Sicrhewch fod eich holl ddata swyddi gwag yn gyffredol ar WNWRS. Gallwch fynd i mewn a newid y swyddi gwag yn eich Practis ar WNWRS drwy'r opsiwn 'swyddi gwag' ar y bar tasgau ar y chwith.



Syniadau ac Awgrymiadau

Archebu Sifftiau Locwm ar Locum Hub Wales (GPWales)

- Wrth hysbysebu sifftiau Locwm ar Locum Hub Wales, rhwch gymaint o fanylion â phosibl am eich Practis, eich trefniadau gweithio a'ch manylebau sifft. Mae dadansoddiad data cychwynnol yn awgrymu po fwyaf o wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi, y mwyaf tebygol y bydd ceisiadau am y sifft.
- Wrth archebu Meddyg Teulu Locwm, rhwch gymaint o rybudd â phosibl i'r Meddyg Teulu Locwm yr hoffech ei gyflogi i weithio'r sifft.



Gweler ein cod QR newydd, a fydd

yn mynd â chi'n uniongyrchol i'n

Gwefan Cynaliadwyedd

Gofal Sylfaenol.

